


# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen  
YTyllgoed  
Caerdydd  
CF5 3PZ


 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road  
Fairwater  
Cardiff  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Ionawr 2022

## Cymeradwyaeth rhieni ar gyfer gweithdrefnau'r ysgol

Annwyl riant / warcheidwad

Yn y llyfryn hwn fe welir cyfres o daflenni sydd yn cynnwys gwybodaeth am agweddau pwysig o fywyd ysgol sydd angen eich cymeradwyaeth a'ch cefnogaeth. Pwrpas cynnwys y taflenni mewn man canolog yw osgoi anfon yr holl daflenni atoch arwahan. Fydd derbyn eich caniatad, eich cymeradwyaeth a'ch cefnogaeth i'r gyfres o weithdrefnau ac egwyddorion ysgol yn golygu na fydd angen i chi lofnodi taflenni unigol yn flynyddol. Fe fydd derbyn eich caniatad a'ch cefnogaeth yr unwaith yn ddigonol ar gyfer cyfnod eich plentyn yn yr ysgol.

Mae copi o'r llyfryn hwn ar gael ar wefan yr ysgol o dan y pennawd 'gwybodaeth' ac yna 'dogfennau' a hefyd yn ffolder 'cysylltiadu' eich cyfrif Edulink.

Mae'r llyfryn yn cynnwys y canlynol:

- Cytundeb cartef / ysgol.
- Caniatad riant / gofalwr ar gyfer ymweliadau arferol.
- Datganiad defnydd derbyniol o'r rhyngwyd.
- Polisi defnydd o luniau disgyblion.
- Polisi Parch, Parodrwydd, Perthyn yr ysgol.

Fel arfer fydden ni wedi trefnu hyn yn oll yn gynnar yn mis Medi, ond mae oblygiadau delio gyda COVID wedi golygu ein bod yn hwyrach nag arfer yn delio gyda hyn eleni.

A fyddech cystal a chydabod eich bod wedi darllen y dogfennau a'ch bod yn cytuno, cymeradwyo ac yn cefnogi'r gweithdrefnau a'r egwyddorion erbyn **dydd Gwener, Ionawr 28ain, 2022?**


Fe allwch wneud hyn yn uniongyrchol ar **Edulink**, o dan '**Diweddaru Gwybodaeth**' (wele y delweddau isod). Bydd angen i chi roi 'tic' yn erbyn pob un o'r gweithdrefnau ysgol sydd yn y rhestr.

Fe allwch chi yn ogystal, ddiweddaru eich cyfeiriadau / rhifau ffôn / manylion meddygol ayyb yn yr un lle hefyd.

**Dilynwch y camau canlynol i gyrraedd y lleoliad cywir ar [Edulink](#).** Bydd angen i chi ddefnyddio eich manylion mewngofnodi eich hunain (fel riant). Os ydych yn cael trafferth mewngofnoi, cysylltwch â'r swyddfa:

- Agorwch yr ap Edulink ar eich dyfais.

- O'r olwyn 'homepage', dewiswch, 'diweddarau gwybodaeth'.
- Dewiswch eich plentyn neu blant yn eu tro er mwyn cymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer pob plentyn yn unigol.
- Sgrolwch i waelod y dudalen at 'Caniatad Rhiant' a dewiswch 'check all'.
- Unwaith fyddwch chi wedi gwirio'r dogfennau a rhoi 'tic' yn y blwch wrth ymyl pob un, yna arbedwch eich cofnod drwy wasgu "save".



Parental Consent

Caniatad Rhiant

Parental consents

Cytundeb Cartref/Ysgol - Home/School Agreement, Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwrwd - Safe Internet Usage, Defnyddio Llunau o'ch plentyn - Acceptable use of pupil phot...

Check All  
 Uncheck All

Cytundeb Cartref/Ysgol - Home/School Agreement  
 Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwrwd - Safe Internet Usage

General Data Protection Regulation 2018: The school has a duty to protect this information and to keep it up-to-date. The school may be required to share some of the data with the Local Authority and with the DfE.

*Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol am staff, disgyblion, rhieni ac unigolion eraill sy'n dod i gysylltiad â'r ysgol. Cesglir y wybodaeth hon er mwyn ei galluogi i ddarparu Addysg a swyddogaethau cysylltiedig eraill. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd gofyniad cyfreithiol i gasglu a defnyddio gwybodaeth i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol. Mae copi llawn o'r polisi diogelu data a hysbysiad preifatrwydd ar gael ar gwefan yr ysgol.*

<http://www.ysgolplasmawr.cymru/index.php/cy/gwybodaeth/dogfennau>

# CYTUNDEB CARTREF / YSGOL



Bwriad y cytundeb hwn yw hybu cydweithrediad a dealltwriaeth. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ymfalchïo yn y berthynas agos ac adeiladol sy'n bodoli rhwng y rhieni, y disgyblion a'r athrawon, rydym yn gymuned gyda'n gilydd.

## Nodau'r Ysgol

Rhagoriaeth yw nod Plasmawr. Gwneir hyn drwy gynnal cymuned flaengar sy'n seiliedig ar barch; sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant; sy'n ddisgybledig ei hymarweddiad; sy'n eangfrydig ei gorwelion; sy'n meithrin sgiliau ei dysgwyr ac sy'n rhoi gwerth cyfartal ar bob aelod ohoni.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ysgol Gymunedol Ddynodedig Cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan Gyngor Caerdydd.

***Cymraeg yw prif iaith yr ysgol a disgwylir i bawb barchu hyn a defnyddio'r iaith ar bob achlysur yn yr ysgol. Disgwylir i ddisgyblion siarad Cymraeg â'i gilydd tu allan i'r dosbarth er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd ac i gyfranogi at weithgareddau allgyrsiol a phreswyl yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i rieni sy'n anfon eu plant i Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr fod yn frwd i'w plant dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg a bod yn rhugl ynddi. Mae agwedd cadarnhaol rieni a disgyblion tuag at y Gymraeg yn hanfodol bwysig wrth sicrhau cyrhaeddiad academiaidd disgyblion a llwyddiant yr ysgol.***

## Ymrwymiad yr Ysgol a'r Staff

Byddwn, fel ysgol ac fel staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ein bod ni'n:

- dangos parch at bob disgybl a theulu gan ddarparu bywyd ysgol ddiogel a hapus i'ch plentyn gan sicrhau cyfle cyfartal a'r cyfle i lwyddo;
- sicrhau bod eich plentyn yn derbyn cymorth ac anogaeth gan Diwtor Personol; Swyddog Presenoldeb a Swyddog Cyswllt Teulu, Anogwr Dysgu neu Fentor (os yn berthnasol) a Phennaeth Blwyddyn;
- sicrhau trwy ein gweithdrefnau a pholisïau ysgol gyfan ein bod ni'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol gan gynnwys cynhwysiant, cyfle cyfartal, trefniadau gwrth fwlian a threfniadau diogelu plant;
- datblygu dysgwyr annibynnol a chyd-ddibynnol a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gyflwyno gwersi sy'n amlygu dysgu da, yn hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac sy'n sicrhau cynnydd;
- tracio cynnydd eich plentyn gan osod targedau uchelgeisiol iddynt;
- cynnig adborth i ddisgyblion drwy asesu a marcio gwaith yn rheolaidd a gosod gwaith cartref priodol yn ôl polisïau'r ysgol;
- cynnig adroddiadau cynhwysfawr ar gynnydd eich plentyn a chyfleoedd drwy nosweithiau rieni a nosweithiau cynnydd i drafod targedau a chyrraeddiad eich plentyn;
- gweithredu fframwaith o reolau a disgyblaeth deg ac agored sy'n cynnwys trefniadau gwobrwyo a chosb sy'n hysbys i'ch plentyn;

## CYTUNDEB CARTREF / YSGOL



- darparu gwybodaeth yn brydlon dros y ffon, drwy e-bost, nodyn yn y llawlyfr, llythyru neu drwy gyfarfod wyneb yn wyneb am broblemau ynghylch cyrhaeddiad neu ymddygiad eich plentyn gan gynnwys pryderon ynglŷn â thangyflawni, diffyg cynnydd a dirywiad amlwg a chyson mewn ymddygiad (a all arwain at gamau disgyblu gan gynnwys tynnu disgybl allan o wersi (Galwad 200), mynychu ystafell gosb neu ddiarddeliad gan y Pennaeth);
- cysylltu gyda rheini os oes patrwm o absenoldebau yn datblygu gan hyrwyddo lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb;
- darparu amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd preswyl a fydd yn hybu cyfranogiad eich plentyn i fywyd ysgol;
- cynnig gwybodaeth i chi am weithgareddau a digwyddiadau drwy ddefnyddio e-byst, gwefan a rhwydweithiau cymdeithasol yr ysgol;
- cynnig cyfleoedd drwy waith y Corff Llywodraethol, Y Cyngor Ysgol a 'r Cymdeithas Rieni Staff ac Athrawon bod llais y dysgwr a rhieni yn cyfrannu at lwyddiant yr ysgol a'i disgyblion.

### Ymrwymiad Rhiant/Gwarchodwr

Gwnawn fel rhieni neu warchodwyr bob ymdrech i sicrhau ein bod ni'n:

- **hybu lle'r iaith Gymraeg ym mywyd ein plentyn;**
- dangos parch at staff yr ysgol gan ddangos cefnogaeth ac ymrwymiad i nodau, ethos a rheolau'r ysgol;
- ymddiddori yng ngwaith ysgol ein plentyn, gan ddiogelu cyfle iddo/iddi gyflawni gwaith cartref yn effeithiol ac i safon uchel;
- cefnogi ymdrechion yr ysgol i gynnal safonau ymddygiad a gwisg;
- rhoi gwybod i'r ysgol os oes problemau fyddai'n gallu effeithio ar waith neu ymddygiad ein plentyn gan weithio ar y cyd gyda'r ysgol er mwyn goresgyn y problemau hyn;
- rhoi gwybod i'r ysgol, drwy'r Arweinydd Cynnydd perthnasol, os oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â chynnydd neu les ein plentyn o fewn yr ysgol;
- peidio cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol (rydym yn deall ni fydd yr ysgol yn medru awdurdodi absenoldebau o'r fath);
- sicrhau fod safonau presenoldeb a phrydlondeb ein plentyn mor uchel â phosibl gan hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb, rhoi gwybod i'r ysgol ymlaen llaw os oes, er enghraifft, apwyntiad meddygol ac anfon nodyn (o'r llawlyfr) pan fydd fy mhentyn yn dychwelyd i'r ysgol;
- gwirio'r Llawlyfr Disgybl a'i lofnodi'n wythnosol;
- mynychu cyfarfodydd rhieni a/neu nosweithiau cynnydd er mwyn trafod a chefnogi cynnydd ein plentyn;

## CYTUNDEB CARTREF / YSGOL



- ceisio bod yn rhan o fywyd ein plentyn yn yr ysgol gan gefnogi cyfranogiad fy mhlentyn mewn gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys profiadau preswyl a chyfleoedd i gynrychioli'r ysgol ar y maes chwarae ac wrth berfformio.

### Ymrwymiad Y Disgybl

Gwnaf bob ymdrech fel aelod o gymuned yr ysgol i sicrhau fy mod yn:

- ***siarad yr iaith Gymraeg ym mhob sefyllfa bosibl y tu fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth gan ymfalchïo yn y ffaith fy mod yn arddel ac yn ddefnyddio'r iaith;***
- gwrtais ac yn gydweithredol gan ddangos parch tuag at staff a chyd-ddisgyblion gan gofio bod fy ymddygiad yn medru effeithio ar gynnydd eraill;
- sicrhau fod yr holl offer sydd eu hangen ar gyfer gwersi'r dydd gennyf gan gynnwys bag addas, fy llawlyfr, offer cas bensiliau a gwisg addysg gorfforol;
- awyddus i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac i gyfranogi mewn gwersi a gweithgareddau allgyrsiol;
- cofnodi ac yna cwblhau gwaith cartref yn brydlon a hyd eithaf fy ngallu;
- paratoi yn drylwyr ar gyfer profion ac arholiadau ac i gyflwyno gofynion gwaith cwrs o fewn terfynau amser athrawon;
- cadw rheolau'r ysgol, gan gynnwys rhai gwisg ysgol, rheolau a chytundebau yn ymwneud â gemwaith, colur, gwm cnoi, defnydd o ffonau symudol, dyfeisiadau TGCh, defnydd o'r we ac offer yr ysgol;
- mynychu'r ysgol yn brydlon bob dydd gan sicrhau lefel presenoldeb a phrydlondeb uchel;
- barchu amgylchedd yr ysgol a'i gadw'n daclus;
- aros o fewn ffiniau'r ysgol yn ystod y dydd a pharchu trefniadau egwyl a chinio'r ysgol;
- gyfrifol am iechyd a diogelwch fy hunan ac eraill tra ar safle'r ysgol ac yn parchu delfrydau "Ysgol Iach" yr ysgol;
- cofio cadw holl reolau'r ysgol ar y bws ysgol gan sicrhau taith ddiogel a dymunol i eraill;
- hysbysu aelod o staff, swyddog 6ed dosbarth, MAP neu CCC os oes gennyf broblem neu ofid ynglŷn â bywyd ysgol gan gynnwys fy mherthynas gydag eraill.

## Caniatâd Rhiant / Gofalwr ar gyfer Ymweliadau Arferol



Cytunaf i'm plentyn gymryd rhan mewn ymweliadau arferol o'r ysgol/sefydliad. Gall yr ymweliad gynnwys y gweithgareddau canlynol, neu debyg:

*Gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol (gan gynnwys timau ysgol, Gwibdeithiau o fewn oriau ysgol, Eisteddfod yr Ysgol/Urdd a Diwrnod mabolgampau*

Bydd yr ymweliadau hyn fel arfer yn digwydd yn y canlynol, neu leoliadau tebyg:

*Safleoedd a chaeau chwarae ysgolion eraill, Neuaddau/theatrau cyhoeddus, Canolfannau chwaraeon, Canol y ddinas / Bae*

### Deallaf:

- y bydd ymweliadau o'r fath fel arfer yn digwydd o fewn oriau arferol yr ysgol/sefydliad, ond os byddant yn hirach na hyn, rhoddir rhybudd mewn digon o bryd fel y gallaf wneud trefniadau priodol ar gyfer dychweliad fy mhlentyn adref;
- y ceisir fy nghaniatâd penodol ar gyfer unrhyw ymweliad sydd yn fwy na'r ymweliadau a restrwyd uchod neu a allai gynnwys ymrwymiad i deithiau, amser neu gost estynedig;
- y cymerir pob gofal rhesymol o fy mhlentyn yn ystod yr ymweliad;
- y bydd disgwyl i fy mhlentyn ddilyn pob cyfarwyddyd a roddir a chadw pob rheol a rheoliad sy'n llywodraethu'r ymweliad a bydd yn amodol i drefn ddisgyblu arferol yr ysgol /sefydliad yn ystod yr ymweliad;
- fod rhaid i mi hysbysu'r ysgol/ganolfan o unrhyw gyflwr meddygol neu seicolegol neu anabledd corfforol a all effeithio arnynt yn ystod yr ymweliad;
- fod yr holl bobl ifanc wedi'u cynnwys o dan yswiriant trydedd blaid yr Awdurdod cyngor sir ar gyfer unrhyw hawlio yn deillio o ddamwain achoswyd oherwydd nam yn adeiladau'r ysgol neu offer sydd i'w briodoli i esgeulustod y cyngor neu un o aelodau ei staff. Sylwer nad yw'r polisi yswiriant hwn yn cynnwys darpariaeth damwain bersonol nac eiddo personol.



## Datganiad Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd



Mae system gyfrifiadurol yr ysgol yn bodoli er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu eu haddysg ac er mwyn i staff ddatblygu eu sgiliau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys addysgu, ymchwil, gweinyddu a rheoli. Datblygwyd Polisi Mynediad Rhyngrwyd yr ysgol er mwyn diogelu myfyrwyr a staff.

Cedwir yr hawl i archwilio neu ddileu unrhyw ffeiliau a allai fod yn cael eu cadw ar y system gyfrifiadurol ac i fonitro unrhyw safleoedd Rhyngrwyd a ymwelwyd â hwy.

- Ceir mynediad trwy gyfrwng y cyfrif a'r cyfrinair a awdurdodwyd yn unig. Ni ddylai'r wybodaeth hon fod ar gael i unrhyw berson arall;
- Dylai pob defnydd o'r Rhyngrwyd fod yn briodol i weithgarwch proffesiynol staff neu i addysg myfyriwr;
- Gwaherddir gweithgarwch sy'n bygwth cywirdeb systemau TGCh ac enw da yr ysgol. Gwaherddir hefyd unrhyw weithgarwch sy'n ymosod ar, neu sy'n llygru systemau eraill;
- Dylai'r safleoedd a'r deunyddiau a geir mynediad iddynt fod yn briodol i waith yr ysgol. Bydd defnyddwyr yn adnabod deunyddiau amhriodol a dylent ddisgwyl i'w mynediad i'r Rhyngrwyd gael ei ddileu;
- Cyfrifoldeb y defnyddwyr yw'r e-byst a ddanfonir, y cysylltiadau a wneir a'r e-byst a gaiff eu derbyn;
- Dylai'r un lefel broffesiynol o iaith a chynnwys fodoli mewn e-bost ag a geir mewn llythyron neu gyfryngau eraill. Cofier bod e-byst yn aml yn cael eu danfon ymlaen at eraill;
- Gwaherddir danfon negeseuon di-enw neu lythyron cadwyn;
- Dylid parchu hawlfraint deunyddiau proffesiynol yn ogystal â hawliau deunyddiau llenyddol personol;
- Gellir dilyn diddordebau cyfreithlon os nad yw defnydd yr ysgol yn cael ei beryglu;
- Gwaherddir defnyddio'r Rhyngrwyd er budd personol ariannol, gamblo, unrhyw fath o ymgyrchu, dibenion gwleidyddol neu hysbysebu.

Dylai staff a myfyrwyr sy'n dymuno cael mynediad i'r Rhyngrwyd lofnodi copi o'r datganiad 'Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd' a'i ddychwelyd at y Rheolwr TGCh a fydd yn ei gymeradwyo.

**Fe fydd pob disgybl yn llofnodi'r Cytundeb yn ystod gwers Technoleg Gwybodaeth.**



## Polisi Defnydd o Luniau Disgyblion



Yn Ysgol Gyfun Plasmawr, rydym yn credu ei bod yn bwysig defnyddio lluniau o'n disgyblion yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol o fywyd yr ysgol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol ar y gwaith a wnawn. Rydym yn defnyddio ffotograffau yn ein deunyddiau cyhoeddusrwydd mewnol, megis prospectws yr ysgol, arddangosfeydd, pamffledi, llyfrynau a rhwydweithiau cymdeithasol, ar ein coridorau ac arddangosfeydd dosbarth, ar gyfer hyfforddi staff, at ddibenion cofrestru ac asesu ac ar ein gwefan. O bryd i'w gilydd, bydd erthyglau a ffotograffau o ddigwyddiadau arbennig yn ymddangos ar wefan yr ysgol neu mewn papurau newydd. Rydym hefyd yn gwahodd ffotograffydd swyddogol i'r ysgol i dynnu lluniau, gan gynnwys lluniau unigol a dosbarth, pan fydd hyn yn wir, mae gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod lefelau o oruchwyliaeth yn briodol i ddiogelu lles disgyblion. Efallai y byddwn hefyd yn gwneud recordiadau fideo neu gwe-gamera ar gyfer yr cynadleddau ysgol-i-ysgol, monitro neu ddefnydd arall addysgol.

Er mwyn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod yr holl luniau o'n disgyblion yn cael eu defnyddio'n gywir, rydym yn ymrwmo i:

- Gael eich caniatâd i ddefnyddio lluniau o ddisgyblion, gan gynnwys cyhoeddiadau papur newydd a gwefan yr ysgol;
- Ddim ond defnyddio y ffotograffau ar gyfer y dibenion a nodwyd uchod;
- Storio pob delwedd electronig yn ddiogel.

Mae gennym agwedd gyfrifol at y defnydd o ffotograffau a gobeithio y byddwch yn gallu ein cefnogi wrth roi cyhoeddusrwydd i'r sawl agwedd gadarnhaol o'r gwaith a wnawn. Er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, mae arnom angen eich caniatâd cyn y gallwn dynnu llun neu wneud unrhyw recordiadau o'ch eich plentyn.



# Parch / Parodrwydd / Perthyn

## Cwestiynau Disgyblion Plasmawr

### Parch

- Ydw i'n parchu iaith yr ysgol?
- Ydw i'n ddysgwr da sy'n parchu hawl pob un i gyrraedd eu potensial?
- Ydw i'n parchu gwahaniaeth o ran hil, crefydd, rhywedd a rhywioldeb yn fy ieithwedd a'm hymddygiad?
- Ydw i'n sicrhau bod hawliau cyfartal gan bob un?
- Ydw i'n parchu fy hun ac yn ymddwyn mewn ffordd i fod yn falch ohono?
- Ydw i'n ymddwyn mewn ffordd barchus yn fy mherthnasoedd, yn bersonol ac yn yr ysgol, ac ar gyfryngau cymdeithasol?
- Ydw i'n gwneud fy rhan i barchu'r amgylchedd yn yr ysgol a thu allan yr ysgol?
- Ydw i'n garedig i fi fy hun ac i eraill?
- Ydw i'n defnyddio ffôn symudol gyda chaniatad?

### Parodrwydd

- Ydw i'n barod i lwyddo yn fy ngwaith ysgol?
- Ydw i'n gofalu am fy hun drwy glustnodi amser i'm hiechyd corfforol a'm hiechyd meddwl?
- Ydw i'n gofalu am fy lles emosiynol ac yn ymarfer meddwlgarwch i leihau straen a phryder?
- Ydw i'n medru dangos gwydnwch a dyfalbarhad i oresgyn heriau?
- Ydw i'n dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu?
- Ydw i'n dod â'r offer sydd angen arnaf i lwyddo?
- Ydw i'n bresennol ac yn brydlon i wersi?

### Perthyn

- Ydw i'n falch fy mod yn gallu siarad y Gymraeg ac o fod yn Gymro neu'n Gymraes?
- Ydw i wedi gwisgo mewn ffordd sy'n dangos fy mod yn perthyn i'r ysgol?
- Ydw i'n gwneud cyfraniad i'r ysgol trwy helpu eraill?
- Ydw i'n cyfrannu yn yr ysgol o ran gweithgareddau allgyrsiol?
- Ydw i'n sicrhau fod pawb yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol?
- Ydw i'n falch o'm cymuned ac yn cyfrannu at elusennau lleol?
- Ydw i'n fodel rôl cadarnhaol?


# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen

YTyllgoed

Caerdydd

CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr


Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road

Fairwater

Cardiff

CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

January 2022

## Parental consent for various aspects of school life

Dear parent / guardian

This booklet contains a series of information sheets about various aspects of school life which require your consent, support and approval. We have included all this information in the form of a booklet to avoid sending countless forms home for parental signatures. Receiving your consent, support and approval for these school related practices and principles, negates the need for any further action whilst your child is a pupil at Ysgol Plasmawr.

A copy of this booklet is also available on the school website, under 'information' and 'documents' and in the 'links' folder of your Edulink account. The booklet contains the following information:

- Home / school agreement.
- Parent / carer consent form for routine visits.
- Acceptable internet use statement.
- Acceptable use policy of pupil photographs.
- The school's Be Respectful, Be Prepared, Belong policy.

We would normally have addressed this issue early in September, but due to COVID priorities we have delayed this aspect of school life until now.

We would greatly appreciate it if you could read the documents and note your consent, support and approval to all the documents by **Friday, January 28th, 2022**.

You can record your consent, support and approval in the 'Update information' section of your Edulink account. You will need to tick every box in the list to note your consent (see images below).

You can also update your address, contact details and personal information in this section of the Edulink app.

**Follow the following steps to access the documentation on [Edulink](#).** You will need to use your own (parent) log-in details. If you have difficulty accessing Edulink, please contact the school office:

- Open the Edulink app on your device.
- From the 'homepage', choose, 'Update information'.
- Choose your child or children in turn to note your approval for the individual policies, principles and practices for each child individually.

- Scroll down to the bottom of the page to the 'Parental Consent' section.
- Once you have read the documents, please note your approval with "check all" and remember to "save" your record.



**Parental Consent**

Canistad Rhiant

Parental consents

Cytundeb Cartref/Ysgol - Home/School Agreement, Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwyd - Safe Internet Usage, Defnyddio Lluniau o'ch plentyn - Acceptable use of pupil phot...

Check All  
 Uncheck All

Cytundeb Cartref/Ysgol - Home/School Agreement  
 Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwyd - Safe Internet Usage

General Data Protection Regulation 2018: The school has a duty to protect this information and to keep it up-to-date. The school may be required to share some of the data with the Local Authority and with the DfE.

*Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr collects and uses personal information about staff, pupils, parents and other individuals who come into contact with the school. This information is gathered in order to enable it to provide Education and other associated functions. In addition, there may be a legal requirement to collect and use information to ensure that the School complies with its statutory obligations. A Copy of the data protection policy and school privacy notice is available on the website*

<http://www.ysgolplasmawr.cymru/index.php/information/documents>

# HOME - SCHOOL AGREEMENT



This Agreement aims to promote cooperation and understanding. Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr is proud of the close and constructive relationship that exists between the parents, pupils and teachers; together we are a Community.

## School Aims

Plasmawr's aim is excellence. This is achieved through maintaining an innovative community based on respect; being Welsh in its language and culture; disciplined in its approach; having a broad outlook on the world; nurturing the skills of its learners and placing an equal value on every individual within it.

## The Welsh Language

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr is a Designated Welsh Medium Community School maintained by Cardiff Council.

***The main language of the school is Welsh and everyone is expected to respect this and use the language on all occasions at the school. Pupils are expected to speak to each other in Welsh outside of the classroom in order to give themselves the best opportunity to develop their language skills which are essential in order to ensure progress and to take part in extra-curricular and residential activities through the medium of Welsh. Parents who send their children to Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr are expected to be supportive of their children receiving a Welsh education and being fluent in the language. The positive attitude of parents and pupils towards Welsh is critically important to the academic attainment of pupils and the success of the school.***

## School and Staff Commitment

We will, as a school and staff, make every effort to:

- respect all pupils and families, providing a safe and happy school life for your child, ensuring equal opportunities and the opportunity to succeed;
- ensure that your child gets support and encouragement from a Personal Tutor; Attendance Officer and Family Liaison Officer, Learning Coach or Mentor (if appropriate) and Head of Year;
- ensure through our procedures and whole school policies that we promote the school's values including inclusion, equal opportunity, anti-bullying arrangements and child protection measures;
- develop independent and interdependent learners through the medium of Welsh, offering lessons that highlight good learning, promote literacy and numeracy skills and ensure progress;
- track your child's progress, setting ambitious targets for them;



## HOME - SCHOOL AGREEMENT

- offer feedback to pupils by assessing and marking work regularly and setting appropriate homework in line with school policies;
- offer comprehensive reports on your child's progress and opportunities, through parents' evenings and progress evenings, to discuss your child's targets and attainment;
- implement a framework of fair and open rules and discipline, including arrangements for reward and punishment that are known to your child;
- let you know in a timely manner by phone, email, a note in the handbook, letters or by meeting face to face about problems regarding your child's attainment or behaviour including concerns regarding underachievement, lack of progress and clear and consistent deterioration in behaviour (which can lead to disciplinary steps, including taking pupils out of lessons (Galwad 200), attending detention or being excluded by the Headteacher);
- contact parents if a pattern of absence develops, promoting a high level of attendance and punctuality;
- offer a wide range of extra-curricular activities and residential opportunities that will encourage your child to take part in school life;
- give you information on activities and events through newsletters and email, the school website and social networks;
- offer opportunities through the Governing Body, the School Council and the Parents, Staff and Teachers Association to ensure that pupils and parent have a voice in contributing to the success of the school and its pupils.

### Parent / Guardian Commitment

As parents or guardians we will make every effort to ensure that we:

- ***promote the Welsh language in our child's life;***
- show respect to school staff and support and commitment to the school's aims, ethos and rules;
- take an interest in our child's school work, ensuring he/she has the opportunity to do homework effectively and to a high standard;
- support the school's efforts to maintain standards of behaviour and uniform;
- let the school know if there are any problems that could affect our child's work or behaviour, cooperating with the school in order to overcome these problems;
- let the school know, through the relevant Progress Leader, if we have any concerns regarding our child's progress or welfare within the school;

## HOME - SCHOOL AGREEMENT



- do not arrange holidays during the school term (we understand that the school cannot authorise such absences);
- make certain that our child's standards of attendance and punctuality are as high as possible, letting the school know about any absences, informing the school in advance if, for example, a medical appointment has been arranged and sending a note (from the handbook) when our child returns to school;
- check the Pupils Handbook and sign it weekly;
- attend parents' meetings and/or progress evenings in order to discuss and support our child's progress;
- try to be a part of our child's life at the school, supporting our child in extra-curricular activities including residential experiences and opportunities to represent the school in sporting and performance events.

### Pupil Commitment

I will make every effort as a member of the school community to ensure that I:

- ***speak Welsh in all possible situations in the classroom and outside of it, taking pride in the fact that I speak and use the language;***
- am polite and cooperative showing respect to staff and fellow pupils, bearing in mind that my behaviour can affect the progress of others;
- have all the necessary equipment for the day's lessons including a suitable bag, my handbook, equipment, pencil case and PE kit;
- am keen to play a key part in school life and to contribute to lessons and extra-curricular activities;
- record and complete homework punctually and to the best of my ability;
- thoroughly prepare for tests and exams and submit course work within the deadline set by teachers;
- comply with school rules, including school uniform, rules and agreements regarding jewellery, make up, chewing gum, use of mobile phones, ICT devices, use of the internet and school equipment;
- attend school punctually every day ensuring a high level of attendance and punctuality;
- respect the school environment and keep it tidy;
- stay within school boundaries during the day and respect the school's break-time and lunchtime arrangements;
- take responsibility for my own health and safety and others while on school premises and respect the school's "Healthy School" ideals;

## HOME - SCHOOL AGREEMENT



- comply with all school rules on the bus, ensuring a safe and pleasant journey for others;
- inform a member of staff, a 6th form prefect, MAP or CCC if I have any problems or concerns regarding life at the school, including my relationship with others.



## Parent / Carer Consent Form for Routine Visits

I hereby agree to my child participating in routine visits off the school/establishment site. These visits might include the following, or similar, activities:

*Sporting and cultural activities (including team games), Educational visits conducted during school hours, School or Urdd Eisteddfod, Sports day*

These visits will normally take place at the following, or similar, locations:

*Other schools, Public theatres or concert halls, Sport centres, Various locations in and around the city*

### **I understand that:**

- such visits will normally take place within the school/establishment normal hours, but that if, occasionally, they are likely to extend beyond this, adequate advance notice will be given so that I may make appropriate arrangements for my child's return home;
- my specific permission will be sought for any visits beyond those listed above or which could involve commitment to extended journeys, times or expense;
- all reasonable care will be taken of my child during the visit;
- my child will be under an obligation to obey all directions given and to observe all rules and regulations governing the visit and will be subject to all normal school/establishment discipline procedures during the visit;
- I must inform the school/establishment of any medical or behavioural condition or physical disabilities that may affect them during the visit;
- all young people are covered by the Local Authority's third party public liability insurance in respect of any claim arising from an accident caused by a defect in the school/establishment premises or equipment or attributable to negligence by the Council or one of its employees. Please note that this insurance policy does not include personal accident or personal belongings cover for your child.





## Acceptable Internet Use Statement



The computer system is owned by the school and is made available to students to further their education and to staff to enhance their professional activities including teaching, research, administration and management. The school's Internet Access Policy has been drawn up to protect all parties - the students, the staff and the school.

The school reserves the right to examine or delete any files that may be held on its computer system or to monitor any Internet sites visited.

- Access must only be made via the authorised account and password, which must not be made available to any other person;
- All Internet use should be appropriate to staff professional activity or student's education;
- Activity that threatens the integrity of the school ICT systems or reputation, or that attacks or corrupts other systems, is forbidden;
- Sites and materials accessed must be appropriate to work in school. Users will recognise materials that are inappropriate and should expect to have their access removed.
- Users are responsible for e-mail they send and for contacts made that may result in e-mail being received;
- The same professional levels of language and content should be applied as for letters or other media, particularly as e-mail is often forwarded;
- Posting anonymous messages and forwarding chain letters is forbidden;
- Copyright of materials and intellectual property rights must be respected;
- Legitimate private interests may be followed, providing school use is not compromised;
- Use for personal financial gain, gambling, any form of campaigning, political purposes or advertising is forbidden;

Staff and students requesting Internet access should sign a copy of this Acceptable Internet Use Statement and return it to the ICT Manager for approval.

**Pupils will be asked to sign the above policy during one of their Information Technology lessons.**



## Acceptable Use Policy of Pupil Photographs



At Ysgol Gyfun Plasmawr, we think it is important to use photographs of our pupils enjoying the varied activities of school life to promote the positive aspects of the work that we do. We use photographs in our internal publicity materials such as the school prospectus, displays, brochures and booklets, on our corridor and classroom displays, for staff training, for registration and assessment purposes and on our web site. From time to time, articles and photographs of special events will appear on the school website and social media, or in newspapers. We also invite an official photographer into school to take photographs including individual and class photos, when this is the case, procedures are in place to ensure that levels of supervision are appropriate to safeguard pupils' wellbeing. We may also make video or webcam recordings for school-to-school conferences, monitoring or other educational use.

To do all we can to ensure all photographs of our pupils are used correctly, we undertake to:

- Obtain your permission to use photographs of pupils, including newspaper publications and the school website;
- Only use photographs for the purposes stated above;
- Store all electronic images securely.

We have a responsible approach to the use of photographs and do hope that you are able to support us in publicising the many positive aspects of the work that we do. To comply with the Data Protection Act 1998, we need your permission before we can photograph or make any recordings of your child.

# Parch / Parodrwydd / Perthyn

## Cwestiynau Disgyblion Plasmawr

### Be Respectful

- Do I show respect for the language of my school?
- Am I a good learner who respects the right of everybody to fulfill their potential?
- Am I respectful of different races, beliefs, genders and sexualities in the language I use, as well as in my actions?
- Do I treat everyone equally?
- Do I have self-respect and am I proud of my behaviour?
- Do I treat others with respect in my personal relationships, in and out of school and on social media?
- Do I play my part to respect the environment in and outside school?
- Am I kind to myself and others?
- Do I only use my mobile phone when I have permission?

### Be Prepared

- Am I prepared to succeed in passing my school work?
- Do I look after myself by setting aside time for my physical health and my mental health?
- Do I look after my emotional well-being and practice mindfulness to reduce stress and anxiety?
- Am I willing to develop a growth mindset and lasting resilience?
- Do I have a positive attitude to learning?
- Does my behaviour help my learning and the learning experience of others?
- Do I bring the necessary Equipment to school
- Am I in lessons and on time?

### Belong

- Am I proud to be Welsh and to speak Welsh?
- Am I dressed in a way which shows that I am part of my school?
- Do I help make a difference to others?
- Do I take part in extra-curricular school activities ?
- Do I help make sure that everyone feels safe in my school?
- Am I proud of my community and do I support local charities?
- Do I play my part to respect the environment in and outside school?
- Am I a positive role model?